**Cynhyrchwyd ar ran AQA, OCR, Pearson a CBAC**

## Gwrthdaro ar yr amserlen sy'n cynnwys arholiad UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach neu Safon Uwch Mathemateg

Er mwyn helpu i sicrhau cywirdeb arholiadau hollbwysig, mae AQA, OCR, Pearson a CBAC wedi sefydlu trefniadau diogelwch gwell. Mae'r rhain yn cynnwys amserlennu arholiadau UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateb Bellach a Safon Uwch Mathemateg yn sesiwn y prynhawn.

Os oes gan ymgeisydd wrthdaro ar ei amserlen sy'n cynnwys arholiad UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach neu Safon Uwch Mathemateg, **ni all** canolfan symud yr arholiad i sesiwn y bore.

Mae'n **rhaid** i arholiadau UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach a Safon Uwch Mathemateg gael eu sefyll yn y sesiwn prynhawn fel sydd wedi'i gyhoeddi yn amserlen y corff dyfarnu.

Yr unig eithriad i'r rheol hon fyddai pan fydd gan ymgeisydd dri neu fwy o arholiadau UG neu Safon Uwch mewn un diwrnod sy'n **fwy na** chwe awr o hyd. Yn y senario hon gellir symud arholiad UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach neu Safon Uwch Mathemateg i'r bore canlynol. Gweler **adran 8** o'r ddogfen Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau am wybodaeth am drefniadau goruchwylio dros nos:
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

Mae'r cyrff dyfarnu yn gwerthfawrogi y gall fod heriau o ran logisteg i ymgeiswyr sydd ag amser ychwanegol a/neu egwyliau gorffwys dan oruchwyliaeth. Un ateb posibl yw amrywio'r amser cychwyn ar gyfer sesiwn y prynhawn yn unol â **pharagraff 6.2** o'r ddogfen Cyfarwyddiadau ar Gynnal Arholiadau:
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_0

Os nad yw hyn yn bosibl a bod gan ganolfannau ymholiadau am ymgeiswyr unigol, dylid cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol am gyngor.

**Nid yw'r trefniadau hyn yn berthnasol i arholiadau CCEA UG Mathemateg Bellach, UG Mathemateg, Safon Uwch Mathemateg Bellach a Safon Uwch Mathemateg.**